Gwasanaeth Cymorth Casglu (casgliad arbennig)

Ydych chi angen help gyda'ch casgliad gwastraff neu ailgylchu?

www.gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Cymorth Casglu

Mae'r gwasanaeth cymorth casglu ar gael i bobl sydd ddim yn gallu mynd â'u biniau neu focsys ailgylchu allan i'r man casglu oherwydd anabledd neu salwch.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bobl:

- sydd ag anabledd neu salwch sy'n golygu nad ydynt yn gallu mynd â'u biniau/bocsys allan i ymyl y pafin neu i'r pwynt casglu arferol.
- sydd â neb arall yn byw yn y cartref sy'n gallu helpu i wneud hyn.

Sut allaf wneud cais am gymorth casglu?

Llenwch y ffurflen gais a'i dychwelyd i'r cyfeiriad sydd wedi ei nodi arni neu trwy lawrlwytho y ffurflen ar y wê **www.gwynedd.llyw.cymru/cymorthcasglu**, ei sganio a'i gyrru nol trwy e-bost i **cymorthcasglu@gwynedd.llyw.cymru**

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud cais?

Bydd Swyddog o'r Cyngor yn trefnu ymweliad er mwyn gwneud yn siŵr bod y criwiau casglu yn gallu cael mynediad diogel at eich biniau.

Unwaith bydd eich cais wedi ei gymeradwyo bydd y gwasanaeth cymorth casglu yn dechrau ar eich diwrnod casglu arferol, os na fyddwch wedi clywed yn wahanol.

Gwnewch yn siŵr bod eich biniau wedi eu labelu er mwyn sicrhau bod y criw casglu yn gallu eu dychwelyd ar ôl y casgliad.

Am ba mor hir alla'i ddefnyddio'r gwasanaeth cymorth casglu?

Gallwch gofrestru am y gwasanaeth am gyfnod o 3, 6 neu 12 mis e.e. os ydych chi wedi brifo neu wedi derbyn triniaeth (fel clun neu ben-glin newydd) ac yn methu mynd a'r biniau allan ar hyn o bryd, ond bod disgwyl i chi wella'n dda. Os nad yw eich amgylchiadau yn debygol o newid gallwch gofrestru am y gwasanaeth am gyfnod o hyd at 24 mis. Byddwn yn ysgrifennu atoch bob dwy flynedd yn gofyn i chi gadarnhau os ydych eisiau parhau gyda'r gwasanaeth. Os na fyddwch yn ymateb mae'n bosib y bydd eich gwasanaeth cymorth casglu yn dod i ben.

Os byddwch yn symud tŷ neu ddim angen y gwasanaeth hwn mwyach, rhowch wybod i ni drwy ffonio - **01766 771000** neu e-bostio **cymorthcasglu@gwynedd.llyw.cymru**

Ffurflen Gais
Cymorth Casglu/Casgliad Arbennig

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

..... Côd Post .....

Rhif Ffôn ..... E-bost .....

Efo pa finiau ydych chi angen help? Ticiwch bob un perthnasol

☐ Bin olwyn sbwriel/bagiau duon

☐ Bin olwyn brown/bagiau gwastraff gardd

☐ Cartgylchu/Bocs Glas

☐ Gwastraff Bwyd

Am faint fyddwch chi angen y gwasanaeth cymorth casglu?

☐ 3 mis ☐ 6 mis ☐ 12 mis ☐ 24 Mis

Nodwch pam eich bod angen y gwasanaeth cymorth casglu:

.....

.....

.....

.....

.....

* *Does dim rhaid cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eich cais, ond os ydych yn gwneud cais am wasanaeth parhaol (24 mis) mae'n bosib y byddwn yn gofyn am gael gweld tystiolaeth yn y dyfodol.*

Drwy arwyddo'r ffurflen yma rydych yn cadarnhau nad ydych yn gallu mynd â'ch biniau allan i'r man casglu, ac nad oes neb arall yn eich cartref sy'n gallu helpu.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Ar ôl llenwi'r ffurflen, anfonwch yn ôl i: **Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, Stâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BF**

Caniatewch hyd at 10 diwrnod gwaith i brosesu eich cais os gwelwch yn dda.
neu trwy e-bost i **cymorthcasglu@gwynedd.llyw.cymru**.